



Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 18A – Goruchwylio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.
2. Mae'r adroddiad yn argymhell cyflwyno Rheol Sefydlog 18A newydd i alluogi'r Cynulliad i ddirprwyo i bwyllgorau cyfrifol swyddogaethau o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC) sy'n ymwneud â threfniadau goruchwylio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r newidiadau a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn Atodiad A.

Cefndir

3. Pasiwyd Deddf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) gan y Cynulliad ar 19 Mawrth 2019, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 22 Mai 2019, a chychwynwyd y darpariaethau sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ar 23 Gorffennaf 2019.

4. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o swyddogaethau ar y Cynulliad. O dan Adran 76 o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad wneud darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog ynghylch arfer rhai o'r swyddogaethau a roddwyd iddo gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor neu is-bwyllgor y Cynulliad neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".

Swyddogaethau'n ymwneud â threfniadau goruchwyllo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

5. Prif bwrpas y Ddeddf yw rhoi pwerau newydd i'r Ombwdsmon, gan gynnwys pŵer i:

- dderbyn cwynion llafar;
- ymchwilio ar ei liwt ei hun;
- ymchwilio i driniaeth feddygol breifat gan gynnwys gofal nyrsio ar lwybr iechyd cyhoeddus/preifat; ac
- ymgymryd â rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion.

6. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu sy'n ymwneud â'r Ombwdsmon, ac mewn perthynas â'r darpariaethau hyn y rhoddir rhai swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn newydd neu wedi'u newid, ac mae eraill wedi'u cario ymlaen o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

7. Dyma'r swyddogaethau perthnasol y gellir eu dirprwyo drwy'r Rheolau Sefydlog:

- adran 73(1): yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf, ar ôl i'r Ddeddf fod mewn grym am 5 mlynedd;
- adran 73(2): yn rhoi pŵer disgrisiwn i'r Cynulliad adolygu'r Ddeddf ar unrhyw adeg;
- adran 73(3): yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ymgynghori wrth baratoi adroddiad o dan yr adran hon;
- atodlen 1, paragraff 5: yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad bennu telerau penodi'r Ombwdsmon neu unrhyw Ombwdsmon dros dro, gan gynnwys ei gyflog;
- atodlen 1, paragraff 8(1): o dan baragraff 8, mae person a arferai fod yn Ombwdsmon neu a arferai fod yn Ombwdsmon dros dro wedi'i anghymhwyso o rai swyddi, megis bod yn awdurdod rhestredig, oni bai fod y Cynulliad yn cymeradwyo fel arall.

Dirprwyo Swyddogaethau i Bwyllgorau Cyfrifol

8. Mae'r Rheol Sefydlog ddrafft newydd, sef Rheol Sefydlog 18A, yn dirprwyo'r swyddogaethau hyn i bwyllgor(au) cyfrifol. Mae'r dull a ddilynir yn gyson â'r dull ar gyfer darnau cymaradwy eraill o ddeddfwriaeth, yn enwedig Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a roddodd lawer o swyddogaethau i'r Cynulliad, sydd yn eu tro yn cael eu dirprwyo i bwyllgor gan Reol Sefydlog 18.10 a 18.11.

9. Nid yw Deddf yr Ombwdsmon yn caniatáu i'r Cynulliad ddirprwyo ei bŵer i enwebu person i'w Mawrhydi i'w benodi'n Ombwdsmon. Fodd bynnag, er cysondeb â Rheol Sefydlog 18 mewn perthynas â Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, cynigir bod y Rheol Sefydlog newydd yn dirprwyo i bwyllgor cyfrifol y swyddogaeth o gynghori'r Cynulliad ar yr enwebiad hwnnw, yn unol â Rheol Sefydlog 10.

10. Hefyd, er mwyn bod yn gyson â Rheol Sefydlog 18, cynigir bod y Rheol Sefydlog 18A newydd yn cynnwys y swyddogaeth o ystyried amcangyfrifon yr Ombwdsmon fel rhan o broses flynyddol y gyllideb. Ar hyn o bryd y pwyllgor

cyfrifol sy'n cyflawni'r swyddogaeth honno o dan Reol Sefydlog 20, ac felly bydd newidiadau canlyniadol i Reol Sefydlog 20.

Cylchoedd gwaith pwyllgorau

11. Os cytunir ar y Rheol Sefydlog newydd, byddai angen i'r Cynulliad ddiwygio cylch gwaith un neu fwy o'i bwyllgorau i gynnwys y swyddogaethau newydd. Byddai'r Pwyllgor Busnes yn cyflwyno cynnig i weithredu newidiadau o'r fath.

12. Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y mater hwn, a chytunwyd mai'r ddau bwyllgor perthnasol fyddai'r Pwyllgor Cyllid, a gyflwynodd y Bil ac sy'n ystyried amcangyfrifon yr Ombwdsmon fel rhan o broses y gyllideb, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sydd ar hyn o bryd yn ystyried adroddiad a chyfrifon blynyddol yr Ombwdsmon ac a fu, cyn hynny, yn bwyllgor cyfrifol wrth benodi'r Ombwdsmon.

13. Yn ogystal â'r amcangyfrifon ar gyfer yr Ombwdsmon, mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ystyried yr amcangyfrifon ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a'r cyllidebau drafft ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Busnes o'r farn ei bod yn synhwyrol cadw pob swyddogaeth o'r fath gyda'r un pwyllgor, ac felly cytunwyd i ddirprwyo'r swyddogaethau cyllidebol hynny i'r Pwyllgor Cyllid, a'r swyddogaethau eraill nad ydynt yn ymwneud â'r gyllideb i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

14. Mae'r ddau Bwyllgor wedi cadarnhau eu bod yn fodlon ar y newidiadau arfaethedig i'r Rheol Sefydlog, a'r newidiadau cysylltiedig i'w cylch gwaith.

Camau i'w cymryd

15. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y newid i Reol Sefydlog 18 ddydd Mawrth 5 Tachwedd 2019, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i nodir yn Atodiad B, a nodi'r wybodaeth arall yn yr adroddiad hwn.

Atodiad A

	RHEOL SEFYDLOG 18A – Trefniadau Goruchwyllo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	
	Y Pwyllgor neu Bwyllgorau	
18A.1	Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 18A yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 18A fel "pwyllgor cyfrifol").	Cyflwyno Rheol Sefydlog Newydd Mae'r Rheol Sefydlog hon yn dilyn model nifer o Reolau Sefydlog eraill wrth bennu swyddogaethau i bwyllgor(au) cyfrifol. Fel y'i drafftiwyd, mae'r Rheol Sefydlog yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd y swyddogaethau'n cael eu pennu naill ai i'r un pwyllgor, neu eu rhannu rhwng dau bwyllgor neu ragor.
	Swyddogaethau	
18A.2	Rhaid i bwyllgor cyfrifol: (i) arfer y swyddogaethau a nodir yn adran 73 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas ag adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf honno;	Cyflwyno Rheol Sefydlog Newydd Mae'r Rheol Sefydlog hon yn nodi'r swyddogaethau sydd i'w dirprwyo i'r pwyllgor(au) cyfrifol.

<p>(ii) arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas â phenderfynu ar delerau penodiad a wneir o dan baragraff 1 neu baragraff 4(1) o'r Ddeddf honno;</p> <p>(iii) arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas â gwahardd;</p> <p>(iv) arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas ag amcangyfrif incwm a threuliau swyddfa'r Ombwdsmon ar gyfer pob blwyddyn ariannol;</p> <p>(v) ystyried unrhyw gynigion cyllideb atodol a gyflwynir o dan adran 126 o'r Ddeddf ac sy'n ceisio diwygio symiau a awdurdodwyd o'r blaen drwy benderfyniad cyllideb neu benderfyniad cyllideb atodol mewn perthynas â'r Ombwdsmon;</p> <p>(vi) yn unol â Rheol Sefydlog 10, cyngori'r Cynulliad i arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 sy'n ymwneud â phenodi a diswyddo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</p>	<p>Mae pwyntiau (i), (ii) a (iii) yn dirprwyo swyddogaethau a gyflwynir gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, ac y mae'r Ddeddf yn nodi y gellir eu dirprwyo i bwyllgor.</p> <p>Mae pwyntiau (iv) a (v) yn dirprwyo swyddogaethau sydd ar hyn o bryd o fewn cylch gwaith y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 20 mewn perthynas â chyllideb yr Ombwdsmon. Gan hynny, mae newidiadau canlyniadol i Reol Sefydlog 20.</p>
---	--

	neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros dro.	
--	--	--

NEWIDIADAU CANLYNIADOL

GORCHYMYN SEFYDLOG 20 – Gweithdrefnau Cyllid	
Ombwdsmon	
<p>20.23 Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n ofynnol o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 <u>baragraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019</u> i'r pwyllgor cyfrifol <u>o dan Reol Sefydlog 18A.2(iv)</u> cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol beth bynnag.</p>	<p>Diwygio'r Rheol Sefydlog</p> <p>Mae diwygiadau yn diweddarau'r cyfeiriad at y Ddeddf newydd, a'r ffaith bod yn rhaid cyflwyno'r amcangyfrifon bellach i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18A, yn hytrach na'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 20 (er y gallant, yn ymarferol, fod yr un pwyllgor).</p>

<p>20.24 “Rhaid i’r pwyllgor cyfrifol <u>o dan Reol Sefydlog 18A.2(iv)</u> ystyried yr amcangyfrif a’i osod gerbron y Cynulliad heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy’n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â’r Ombwdsmon ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddo.”</p>	<p>Diwygio'r Rheol Sefydlog</p> <p>Yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyfrifoldeb am y swyddogaeth hon bellach yn nwylo'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18A.</p>
<p>Cynigion Cyllideb Atodol</p>	
<p>20.36 Os yw'r cynnig cyllideb atodol yn cynnig amrywio cyllideb yr Ombwdsmon:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) rhaid i'r Ombwdsmon ddarparu memorandwm esboniadol i'r pwyllgor cyfrifol <u>o dan Reol Sefydlog 18A.2(v)</u> yn nodi pam mae angen amrywio'r gyllideb; (ii) caiff y pwyllgor cyfrifol <u>o dan Reol Sefydlog 18A.2(v)</u> gyflwyno gerbron y Cynulliad adroddiad ar yr amrywiad arfaethedig o fewn tair wythnos ar 	<p>Diwygio'r Rheol Sefydlog</p> <p>Yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyfrifoldeb am y swyddogaeth hon bellach yn nwylo'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18A.</p>

ôl i'r cynnig cyllideb atodol gael ei gyflwyno. Caiff yr adroddiad gynnig unrhyw ddiwygiadau i'r amrywiad arfaethedig sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Ombwdsmon ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.

Atodiad B

Rheol Sefydlog 18A newydd

18A.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 18A yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 18A fel "pwyllgor cyfrifol").

18A.2 Rhaid i bwyllgor cyfrifol:

- (i) arfer y swyddogaethau a nodir yn adran 73 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas ag adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf honno;
- (ii) arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas â phenderfynu ar delerau penodiad a wneir o dan baragraff 1 neu baragraff 4(1) o'r Ddeddf honno;
- (iii) arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas â gwahardd;
- (iv) arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 mewn perthynas ag amcangyfrif incwm a threuliau swyddfa'r Ombwdsmon ar gyfer pob blwyddyn ariannol;
- (v) ystyried unrhyw gynigion cyllideb atodol a gyflwynir o dan adran 126 o'r Ddeddf ac sy'n ceisio diwygio symiau a awdurdodwyd o'r blaen drwy benderfyniad cyllideb neu benderfyniad cyllideb atodol mewn perthynas â'r Ombwdsmon;
- (vi) yn unol â Rheol Sefydlog 10, cynghori'r Cynulliad i arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus (Cymru) 2019 sy'n ymwneud â phenodi a diswyddo Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros dro.

Newidiadau canlyniadol – Rheol Sefydlog 20

20.23 Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n ofynnol o dan baragraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18A.2(iv) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol beth bynnag.

20.24 Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18A.2(iv) ystyried yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Cynulliad heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Ombwdsmon ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddo.

20.36 Os yw'r cynnig cyllideb atodol yn cynnig amrywio cyllideb yr Ombwdsmon:

- (i) rhaid i'r Ombwdsmon ddarparu memorandwm esboniadol i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18A.2(v) yn nodi pam mae angen amrywio'r gyllideb;
- (ii) caiff y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18A.2(v) gyflwyno gerbron y Cynulliad adroddiad ar yr amrywiad arfaethedig o fewn tair wythnos ar ôl i'r cynnig cyllideb atodol gael ei gyflwyno. Caiff yr adroddiad gynnig unrhyw ddiwygiadau i'r amrywiad arfaethedig sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Ombwdsmon ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ganddo.